## 3.3 Arfer Nodedig ac Arloesol

**Chwarter 2 ac ymweliad dilynol 1 mis yn ddiweddarach - yr holl fannau clinigol yn Ysbyty Caerdydd a'r Fro a'r camau dilynol**

**Arferion Da**

- Roedd safon y wybodaeth i fenywod a theuluoedd ar hysbysfyrddau wedi'u cynllunio'n dda iawn ac yn gyfoes
- Gwnaeth Goruchwylwyr Bydwragedd, Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant a bydwragedd groesawu'r ystafell benodedig ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd, ac mae popeth sydd ei angen ar gyfer goruchwylio mewn un lle
- Roedd y briffiau diogelwch misol a gynhyrchwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn llachar, yn addysgiadol ac yn ffordd dda i Oruchwylwyr Bydwragedd rannu gwybodaeth allweddol â bydwragedd.
- Mae'n galonogol fod y gwasanaeth wedi buddsoddi amser mewn prosiect penodol er mwyn archwilio argaeledd gwasanaethau geni yn y cartref i fenywod.

**Meysydd i'w gwella**

- Ymdriniwyd â'r pryderon a nodwyd o ran gwirio cyfarpar yn ystod yr ymweliad cyntaf ym mis Hydref '13 yn gyflym gan Oruchwylwyr Bydwragedd ac arweinwyr clinigol. Rhoddwyd sicrwydd a thynnwyd sylw at y mater yn ystod y cyfarfod briffio diogelwch dyddiol wrth drosglwyddo
- Mae angen amgylchedd cyson sy'n drefnus, glân, taclus a hamddenol, lle mae aelodau staff yn dangos lefel uchel o broffesiynoldeb yn eu gwaith ac o ran gwirio cyfarpar a'u hagwedd at fenywod.
- Dylai'r gwasanaeth ystyried risgiau rheoli heintiau a diffyg cydymffurfio ag argymhellion Gwisg Cymru Gyfan y Prif Swyddog Nyrsio yng nghyswllt y trefniadau presennol lle mae bydwragedd cymunedol yn parhau i wisgo'u dillad eu hunain pan gânt eu galw i mewn i gefnogi gofal intrapartum i fenywod, yn hytrach na gwisgo'r wisg y cytunwyd arni
- Er i'r AGLl groesawu'r newid i beidio â chynnig asesiad CTG rheolaidd ar gyfer menywod risg isel bellach, dylai'r gwasanaeth ystyried y sail dystiolaeth a'r risg sy'n gysylltiedig â pharhau i storio Peiriannau CTG yn yr Uned dan Arweiniad Bydwragedd rhag ofn y ceir achosion brys. Mae gofyn i'r AGLl hyrwyddo gofal bydwreigiaeth diogel ac effeithiol ar gyfer menywod, ac rydym yn teimlo bod angen rhoi sylw ar y lefel uchaf i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod menywod yn parhau i dderbyn gofal priodol yn seiliedig ar dystiolaeth a chanddo lwybr clir i fenywod sydd angen asesiad CTG gael eu trosglwyddo'n syth i amgylchedd priodol dan arweiniad obstetrig.

Chwarter 3 oedd yr ymweliad archwilio blynyddol a gynhaliwyd ac felly nid oedd adroddiad Pyramid ar wahân

**Chwarter 4**

**Arferion Da**

- Roedd yn galonogol gweld bod y pryderon a nodwyd o ran amgylcheddau gofal a gwirio cyfarpar wedi cael eu hymdrin yn llawn ers yr ymweliad dilynol ym mis Medi '13.

